Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

18 Tachwedd 2019

Annwyl Ysgrifennydd Cartref

YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD HMICFRS:
PEEL: Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu – Heddlu De Cymru

Mae'n galonogol iawn clywed bod Heddlu De Cymru wedi gwneud yn dda ym mhob maes a asesir yn arolygiad PEEL eleni. Mae'r adroddiad yn pwysleisio'n benodol at y ffaith bod Heddlu De Cymru yn dda wrth atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ei fod yn ymchwilio i droseddau'n dda a bod ganddo ffocws clir ar nodi pobl sy'n agored i niwed a'u hamddiffyn. Mae'r adroddiad yn egluro bod yr heddlu'n dda am ddefnyddio adnoddau er mwyn ateb y galw ac yn deall y galwadau sydd arno'n dda. Braf oedd cael gweld bod yr adroddiad hefyd wedi nodi bod yr heddlu'n cynnal diwylliant moesegol ac yn hyrwyddo safonau ymddygiad proffesiynol cadarnhaol, a bod uwch-arweinwyr yn sicrhau bod y gweithlu'n deall yr angen i drin y cyhoedd a'i gilydd â thegwch a pharch.

Hoffwn fynd i'r afael â rhai pwyntiau penodol yn yr adroddiad.

Yn gyntaf, rwy'n croesawu'r gydnabyddiaeth fod 'Prevention is at the core of the force's approach to reducing crime and keeping people safe'. Yn sicr, mae hwn yn ganfyddiad rwy'n cytuno ag ef, ac mae'n adlewyrchu'r flaenoriaeth ar 'atal' sydd wedi'i nodi'n glir yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Rydym yn buddsoddi mewn nifer o fentrau ar y cyd er mwyn atal troseddu - mae ein Cyd-Strategaeth i atal trais yn erbyn menywod a merched ac atal troseddu treisgar ehangach yn ddwy enghraifft lle rydym yn cymryd camau ychwanegol bob blwyddyn, ac felly'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at waith Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a ddechreuwyd gennym yma yn ein heddlu ni ac sydd bellach yn cael ei gyflwyno'n ehangach ar draws pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Mae'r Prif Gwnstabl a minnau'n cytuno bod atal yn ymrwymiad mawr i Heddlu De Cymru, ac mae'n galonogol gweld bod yr Arolygiaeth yn cydnabod hyn yn llawn.

Rwyf hefyd yn croesawu asesiad yr adroddiad bod 'South Wales Police is good at understanding and identifying vulnerability'. Rwyf wedi dilyn y siwrnai hon ers ymhell cyn imi ddod yn Gomisiynydd, ac yn 201 roeddwn i'n hyderus bod dull yr heddlu o fynd i'r afael â phobl sy'n agored i niwed yn dangos mwy o gydymdeimlad a

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

dealltwriaeth nag a welais yn gyffredinol ledled Cymru a Lloegr. Felly rwy'n falch o'r ffordd y mae'r heddlu wedi adeiladu ar y sylfeini hynny wrth flaenoriaethu pobl sy'n agored i niwed a bod y Prif Gwnstabl a'i dîm wedi ymrwymo'n llwyr i hyn. Yn fy nhîm i mae gen i Arweinydd Strategol ar gyfer Pobl sy'n Agored i Niwed a Dioddefwyr, sy'n gweithio'n gadarnhaol mewn partneriaeth â'r heddlu, yn ogystal â phartneriaid lleol ledled ein hardal, i fod yn flaengar yn y maes hwn.

Mae'r adroddiad yn cydnabod bod 'South Wales Police is good at planning for the future', a thrwy fy Mwrdd Strategol, rwy'n mynd ati'n barhaus i fonitro cynlluniau'r heddlu i wella ein gwasanaethau, ein gweithlu a'n hystâd o fewn cyfyngiadau ein cyllideb. Roeddwn yn falch o weld bod yr adroddiad yn cydnabod yr heriau ariannol sylweddol sydd o'n blaenau.

Rwy'n falch bod yr adroddiad wedi nodi bod 'South Wales Police treats both the public and its workforce fairly'. Mae cydnabyddiaeth o bwysigrwydd gweithio gyda chymunedau wedi'i chynnwys yn y canfyddiad hwn oherwydd mae hyn eto yn rhywbeth rydyn ni wedi gweithio arno gyda'n gilydd dros y blynyddoedd diwethaf. Cafwyd ymateb cadarnhaol iawn i'm cais i ailasesu plismona yn y gymdogaeth ac i gyfleu dealltwriaeth fwy datblygedig o rôl a photensial Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a hynny yn fewnol ac yn allanol. Mae plismona cymunedol yn parhau i fod yn hynod bwysig i mi, a hefyd i'r Prif Gwnstabl, sy'n ymdrechu i ymgorffori ein model plismona yn y gymdogaeth newydd sy'n addas i'r dyfodol. Yn hytrach nag ymdrin â'r rhain yn unigol mewn seilos, mae'n gyffrous gweld y cysylltiad ymarferol a wnaed rhwng rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a'r model Plismona yn y Gymdogaeth diwygiedig yn Ne Cymru.

Fel rhan o fy rôl graffu, rwy'n sicrhau bod fy nhîm a minnau'n adolygu'r defnydd o stopio a chwilio a'r defnydd o rym yn rheolaidd, ac mae'n braf gweld bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r ffaith bod Heddlu De Cymru yn defnyddio'r pwerau hyn yn deg ac yn foesegol. Mae'n 'Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu' yn cynnwys asiantaethau partner allanol sy'n helpu fy nhîm a minnau i ddwyn yr heddlu i gyfrif. Mae'r grŵp hwn yn dadansoddi pwerau stopio a chwilio a defnydd o rym, ac rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth yn yr adroddiad fod y craffu allanol hwn yn werthfawr.

Rwy'n falch bod yr adroddiad yn cyfeirio droeon at y gwaith caled sy'n cael ei wneud yn Heddlu De Cymru i wella ei gynrychiolaeth o bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Deilliodd y gwaith hwn o'm tîm i, gan gynnwys yr adolygiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Rwyf wedi cynnwys yr angen i wella ein cynrychiolaeth BAME a menywod ym mhob un o'm Cynlluniau Heddlu a Throseddu ers imi gael fy mhenodi gan na wnaed llawer o gynnydd yn y meysydd hyn i ddechrau. Rydym yn benderfynol o gynnal y cynnydd sylweddol sydd bellach wedi'i wneud, a dyna pam rwy'n parhau i fuddsoddi adnoddau yn y gwaith parhaus a wneir yn yr heddlu er mwyn galluogi i hyn ddigwydd. Rydym yn gwybod nad oes lle i laesu

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

dwylo ac, er y bu gwelliannau sylweddol iawn yn y niferoedd BAME, mae cryn dipyn i'w wneud eto er mwyn sicrhau gwir gynrychiolaeth o'n holl gymunedau.

Nid yw'r adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion penodol, er bod meysydd i'w gwella wedi'u hamlinellu. Rwy'n gwybod y bydd y Prif Gwnstabl wedi ymrwymo i ddatblygu'r meysydd hyn ac y bydd yn croesawu gwaith monitro gennyf i a fy nhîm. Caiff hyn ei gydnabod yn ymateb y Prif Gwnstabl i'r adroddiad isod:

'Rydym yn croesawu canlyniadau Arolygiad PEEL ar effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu 2018/19 HMICFRS 2018/19 lle aseswyd bod Heddlu De Cymru yn gwneud yn dda ym mhob un o'r tri maes. Byddwn yn rhoi sylw manwl i'r canfyddiadau i nodi lle y gellir gwneud gwelliannau er mwyn i ni barhau i ddarparu gwasanaeth o'r safon orau i'n holl gymunedau. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r Grŵp Prif Swyddogion (Aur) a chaiff ei gyflwyno ar gyfer craffu drwy Fwrdd Strategol y Comisiynydd a'i swyddogaeth graffu'.

Fel y bydd yn amlwg o'r adroddiad, rydym yn cymryd arweinyddiaeth weithredol a chraffu o ddifrif, ond rydym hefyd yn cydweithio'n agos i ddod o hyd i ffyrdd o wella'r gwasanaeth a ddarperir i'n cymunedau ledled De Cymru. Drwy weithio gyda'n gilydd a chydag asiantaethau eraill ar lefel leol, rydym yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac agweddau cadarnhaol eraill ar yr amgylchedd datganoledig rydym yn gweithio ynddo.

I gloi, rwy'n croesawu'r adroddiad hwn, sydd, yn fy marn i, yn adlewyrchiad cadarnhaol o berfformiad Heddlu De Cymru. Rwy'n falch iawn o waith ac ymroddiad y swyddogion a'r staff yn Heddlu De Cymru – gan gynnwys aelodau fy nhîm a'r rhai sy'n cyfrannu'n wirfoddol drwy'r Rhaglen Wirfoddoli a'r cyfraniad cynyddol gan Wirfoddolwyr Ieuenctid yr Heddlu. Rwy'n teimlo bod yr adroddiad hwn yn adlewyrchu realiti Heddlu De Cymru heddiw a'r gwaith caled sy'n cael ei wneud er mwyn ateb y galw cynyddol a'r her o ymyrryd yn gynnar drwy weithredu'n gadarnhaol ac yn brydlon er mwyn atal niwed.

Yn gywir,

Y Gwir Anrh Alun Michael

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English